**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 30 MEDI 2021 DYDD IAU, 30 MEDI 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HOLT (CADEIRYDD)

Councillors M. Day (Deputy Chair)
P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
J. Mason
H. McCarthy
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
B. Thomas
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins

D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid |
| Prif Swyddog Adnoddau |
| Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol |
| Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Hayden, M. Holland, C. Meredith, G. Paulsen a T. Sharrem. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>Llongyfarchwyd:<br><br>Rosie Richards, 8 oed o Dredegar, a ddetholwyd i hyfforddi gyda Sgwad Datblygu Gymnasteg Cymru.<br><br>Lloyd Crump, 14 oed o Waunlwyd, oedd wedi ennill Twrnamaint Badminton Dyblau Cymysg Dan 17 Cymru ac a fyddai'n cynrychioli Cymru mewn twrnamaint rhyngwladol yn yr Alban yn yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | wythnosau nesaf.<br><br>Alfie Skinner oedd wedi cymhwyso yng ngrŵp 7 i 8 oed ym Mhencampwriaeth Golff Iau y Byd Academi IMG ac wedi ennill lle yn Nhîm Golff Iau Prydain a fyddai'n cynrychioli'r Deyrnas Unedig yn California ym mis Gorffennaf 2022.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyrau addas. | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR COFNODION – HYDREF 2020 – GORFFENNAF 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Hydref 2020 – Gorffennaf 2021 i'w ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo a chadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **<u>CYD-BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 21** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 22** | **ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 1 EBRILL 2020 I 31 MAWRTH 2021** | |

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy’n rhoi cyfle i Aelodau ystyried gweithgareddau Rheoli Trysorlys a wnaethpwyd ym mlwyddyn ariannol 2020/2021, yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA.

Rhoddwyd crynodeb o’r gweithgareddau Rheoli Trysorlys a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ym mharagraff 5.1.6 yr adroddiad, yn cynnwys:

- Codwyd £166m mewn benthyciadau tymor byr gan arwain at daliad llog ar y benthyciadau dros dro hyn o £265,000 ar gyfradd llog gyfartalog o 0.83%. Mae’r gyfradd log hon yn is na’r gyfradd meincnod (seiliedig ar rymoedd y farchnad) o 1.00%.

- Gwnaethpwyd £400,000 o fuddsoddiadau tymor byr sydd wedi ysgogi £8,000 mewn adenillion buddsoddiad.

- Roedd dyled hirdymor yn dal yn ddyledus ar 31 Mawrth 2021 yn gyfanswm o £170m.

- Roedd dyled tymor byr yn dal yn ddyledus ar 31 Mawrth 2021 yn gyfanswm o £65.315m.

- Mae’r ddyled yn cynnwys y gysylltiedig gyda phrosiect Rheilffordd Cwm Ebwy – benthyciad penodol di-log gan Lywodraeth Cymru..

Mae’r Cyngor wedi cydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol 2003 ac yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA a chanllawiau Llywodraeth Cymru wrth gynnal y gweithgareddau Rheoli Trysorlys a thrwy wneud hynny wedi ymdrechu am reoli risg effeithlon ac ar yr un pryd yn ceisio gwerth gorau cyn belled ag sy’n bosibl. Yn ychwanegol, mae’r Awdurdod wedi rheoli risg credyd yn effeithlon drwy gydol y cyfnod gan felly sicrhau na fu unrhyw golled ariannol arno fel canlyniad i’r argyfwng credyd.

Daeth y Prif Swyddog Adnoddau i ben drwy ddweud fod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad ar 21 Medi 2021 ac wedi cymeradwyo Opsiwn 1.

Cafodd Aelodau wedyn gyfle i godi cwestiynau/rhoi sylwadau ar yr adroddiad. Rhoddwyd crynodeb o’r sylwadau hyn fel sy’n dilyn:

- Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at y ‘Ffin Gweithredol ar gyfer Dyled Allanol’ a roddir yn Atodiad 1 yr adroddiad a chyfeiriodd at sylwadau a phryderon a wnaeth yn flaenorol yng nghyswllt amseriad benthyciad Rheilffordd Cwm Ebwy. Dywedodd fod cyllidebau yn dod dan bwysau cynyddol fel canlyniad i’r pandemig ac na wyddys ar hyn o bryd pa effaith y byddai hyn yn ei gael ar o hyn ymlaen ar lywodraeth leol, sydd â dyletswydd i ddarparu gofal cymdeithasol. Yn ychwanegol, mynegodd ei bryder am allu’r Cyngor i fenthyca yn y dyfodol (nodwyd y defnyddiwyd benthyca darbodus mewn blynyddoedd blaenorol i gynnal rhai o’r gwasanaethau craidd) a gofynnodd os oedd y Prif Swyddog yn hyderus fod terfyn y Ffin Gweithredol yn addas i’r awdurdod.

  Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau ei bod yn hyderus fod y ffin gweithredol yn gywir ar gyfer yr awdurdod. Esboniodd mai’r Cyngor sy’n gosod y ffin gweithredol ac y caiff ei asesu a’i fonitro’n rheolaidd i sicrhau bod lefel y benthyca yn fforddiadwy. Nodwyd y caiff lefel yr amcangyfrif benthyca ei gynnwys yn y gyllideb refeniw yn flynyddol.

Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy ddweud ymhellach fel sy’n dilyn:

- Cyfeiriwyd at Adolygiad Blynyddol diweddar Archwiliad Cymru o Flaenau Gwent ac yn neilltuol y gymhareb hylifedd yn nherm cyllid a dywedwyd y bu Blaenau Gwent ar waelod y tabl cynghrair (h.y. yn y 22ain safle allan o 22 awdurdod) am y 5 mlynedd diwethaf a bod rhwymedigaethau’r Cyngor wedi cynyddu gan 62% yn ystod y cyfnod hwn.

- Rhoddwyd ystyriaeth ar y pryd i fenthyciad Rheilffordd Cwm Ebwy. Roedd wedi dweud y dylai’r baich hwn fod wedi ei rannu rhwng yr awdurdodau perthnasol – dywedwyd yn y cyfryngau yn ddiweddar fod yr awdurdodau lleol hyn nad oedd yn ymwneud ar hyn o bryd yn derbyn y buddion sy’n gysylltiedig gyda’r prosiect o flaen Blaenau Gwent.

- Mae’r adroddiad yn ymwneud â’r gymhareb hylifedd yn achos pryder ac mae angen rhannu a chraffu ar hyn, oherwydd y teimlid fod y benthyciad yn gam yn rhy bell a bod

pryder cynyddol sut y byddai'r awdurdod yn ymdopi yn y dyfodol yn nhermau cyfleoedd benthyca. Roedd yr awdurdod wedi derbyn setliadau ariannol da dros y 4 blynedd ddiwethaf a dylent fod wedi bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol yn ystod y cyfnod hwn.

- Cyfeiriwyd at y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) a mynegwyd pryder y byddai hyn yn cronni dyledion ar gyfer gweinyddiaethau'r dyfodol. Er bod adroddiad Archwilio Cymru wedi dweud y gellid cymryd benthyciadau tymor byr, gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur am sicrwydd na fyddai'r gymhareb hylifedd yn achosi unrhyw broblemau mawr yn y dyfodol.

  Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod Archwilio Cymru wedi dweud fod cymhareb hylifedd yr awdurdod yn isel o gymharu gydag awdurdodau lleol eraill ond dywedodd nad oedd ganddi unrhyw bryderon neilltuol ynghylch hyn. Esboniodd fod yr hylifedd yn cymharu faint o amser a gymerai i ad-dalu benthyciad, o gymharu â faint o amser a gymerai i dderbyn dyled yn ddyledus i'r Cyngor. Rhoddodd y Prif Swyddog sicrwydd fod y Cyngor yn ad-dalu ei ddyledion cyn gynted ag sydd modd i sicrhau nad yw busnesau yn yr ardal dan anfantais oherwydd anawsterau llif arian. Byddid yn adolygu'r mesur hwn yn gyson a daeth i ben drwy ddweud nad oedd ganddi unrhyw bryderon am allu'r awdurdod i ad-dalu unrhyw ddyledion.

Rhoddodd Aelodau eraill sylwadau fel sy'n dilyn:

- Adleisiodd Aelod arall bryderon a sylwadau Arweinydd y Grŵp Llafur a mynegodd ei phryder y byddai'r benthyciad rheilffordd £70m yn effeithio ar allu'r awdurdod ar gyfer benthyca hirdymor (oherwydd y cofnodwyd hyn ar fantolen y Cyngor) a gofynnodd pa mor ariannol gydnerth yw'r awdurdod wrth symud ymlaen. Dywedodd yr Aelod hefyd fod ganddi bryderon dwys, pe na fyddid yn cynhyrchu incwm ar y benthyciad £70m, y gallai hyn o bosibl arwain at doriadau i wasanaethau i ad-dalu'r benthyciad.

  Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y cyflwynwyd adroddiadau yn flaenorol (yn cynnwys adroddiadau Archwilio Cymru) yn ymwneud â chydnerthedd ariannol ar draws Cymru a dywedodd fod adroddiad diweddar gan Archwilio

Cymru wedi dweud fod sefyllfa'r Cyngor yn nhermau ei gydnerthedd ariannol yn gwella, bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn cynyddu a bod y Cyngor ar sail flynyddol wedi medru ymdopi o fewn ei gyllideb flynyddol heb orwario – mae'r rhain yn fesurau cydnerthedd ariannol cadarnhaol.

Pe byddai'n wynebu problemau sylweddol lle byddai angen mwy o fenthyca, caiff hyn ei gynnwys yn y gyllideb wrth symud ymlaen fel y gellid ad-dalu'r ddyled. Cadarnhaodd y Prif Swyddog nad oedd ganddi unrhyw bryderon am raddiad credyd y Cyngor na'r gallu i fedru cynhyrchu'r incwm i ad-dalu'r benthyciadau ac y byddai mantolen y Cyngor yn cefnogi hyn – mae'r Cyngor yn fenthycydd dibynadwy yn y farchnad arian a'r Bwrdd Benthyciadau Gweithiau Cyhoeddus (PWLB).

Ategwyd y byddai'n rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu ei wariant pe byddai'n rhaid ad-dalu'r holl fenthyciadau. Cytunwyd ar lif incwm fel rhan o'r Cytundeb Pedair-ochrog gyda Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru ac y byddai'r Cyngor yn cael gwarant o incwm i wrthbwyso effaith benthyciad Rheilffordd Cwm Ebwy ar y MRP. Felly, ni fyddai rhwymedigaeth ariannol ar y Cyngor na threthdalwyr y Cyngor fel canlyniad i'r benthyciad neilltuol hwn.

- Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur mai uchelgais pob gweinyddiaeth yw adlenwi cronfeydd wrth gefn ond dywedodd fod hynny weithiau'n sylweddol rwyddach nag mewn blynyddoedd eraill, yn arbennig eleni gyda help enfawr £12m o gyllid caledi a ddarparwyd i awdurdodau. Ychwanegodd, yng nghanol llymder ariannol difrifoli blaenorol gyda gorfod dynodi arbedion o £10m mewn un flwyddyn neilltuol, roedd y Cyngor yn dal i fod wedi llwyddo cynyddu lefel y cyllid yn ei gronfeydd wrth gefn.

- Cyfeiriwyd at y £235m o ddyled heb ei thalu a gronnwyd a mynegwyd consyrn y byddai anawsterau ariannol i ddod i adennill y cyllid a wariwyd fel canlyniad i'r pandemig.

  Esboniodd y Prif Swyddog fod y ffigur o £235m fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021 a dywedodd fod lefel y benthyca yn amrywio yn ddyddiol.

- Er eglurhad, dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur nad oedd

yn dadlau'r mater yn ymwneud â benthyciad Rheilffordd Cwm Ebwy. Yr unig bwynt y mae'n ei godi oedd y gallai'r ddyled neilltuol hon, a gynhwyswyd ar fantolen yr awdurdod, gael effaith bosibl ar fenthyca yn y dyfodol a'r gallu i fenthyca, yn neilltuol gyda PWLB. Nodwyd fod y benthyciad o £70m yn cyfrif am 25% o'r fantolen.

Mewn ymateb i gwestiwn os y byddai maint y ddyled yn effeithio ar gyfraddau llog, dywedodd y Prif Swyddog bod benthyciadau unigol yn cael eu negodi ar sail unigol ac y byddent yn annhebyg o gael unrhyw effaith ar y cyfraddau llog presennol. Mae mwyafrif helaeth benthyca'r cyngor gyda PWLB (cyfran gydag awdurdodau eraill a'r marchnadoedd arian), ac mae'r cyfraddau llog hynny yn weithredol i bob awdurdod lleol. Er y cymerwyd y cyfraddau llog gorau adeg yr oedd angen benthyciad, gallai cyfraddau llog gynyddu yn ogystal â gostwng ond ni ddylai'r swm a fenthycwyd ar y fantolen effeithio ar y cyfraddau llog a dalwyd ac ni fyddai'n effeithio ar raddiad credyd y Cyngor.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud ei fod yn croesawu'r pryderon a godwyd yng nghyswllt y gyfradd hylifedd a gwerthfawrogai nad oedd y ddadl am Reilffordd Cwm Ebwy yn cael ei hailddechrau oherwydd bod yr holl sicrwydd y gofynnodd aelodau amdano am y mater hwn eisoes wedi ei roi yn nau gyfarfod blaenorol y Cyngor.

Er yn cydnabod y pryderon a godwyd, dywedodd ei fod wedi codi'r un cwestiynau fel rhan o gylch gorchwyl ei bortffolio a dywedodd fod yn rhaid i Aelodau fod â ffydd ag ymddiriedaeth yn y prif swyddogion a'u cyfrifyddion. Er bod lefelau benthyca a chyfraddau llog yn amrywio, roedd yn hyderus bod yr awdurdod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud fod yr adroddiad neilltuol hwn yn gofyn am farn os yw Aelodau yn fodlon gyda rheolaeth ariannol yr awdurdod ar gyfer cyfnod ariannol 2020/2021 a'i briodoldeb. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod ganddo bob ffydd yn yr adroddiad a chynigiodd y dylid cymeradwyo Opsiwn 1.

Wedyn PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y gweithgaredd Rheoli Trysorlys a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 a derbyn yr hanes o berfformiad a

| | | |
|---|---|---|
| | chydymffurfiaeth a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. | |
| **No. 23** | **<u>ASESIAD PERFFORMIAD 2020/21</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Dechreuodd y Rheolwr Gyfarwyddwr drwy ddweud y cafodd yr adroddiad ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol. Mae angen cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad statudol hwn erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Fodd bynnag mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi newid y gofynion adrodd ar gyfer y dyfodol ac o hyn ymlaen bydd angen i'r Cyngor ddatblygu adroddiadau ar y cynnydd a wnaed ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Felly, hwn fyddai'r adroddiad terfynol a gynhyrchwyd yn ei ffurf bresennol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cydnabod y bu 2020/2021 yn flwyddyn anodd tu hwnt i gynghorau a chymunedau a chydnabuwyd y cafodd rhai blaenoriaethau eu gohirio gan fod adnoddau wedi eu cyfeirio i wasanaethau critigol a gan bod ymateb y Cyngor wedi canolbwyntio ar y pandemig ac yn ddilynol, y cynllun adfer.<br><br>Ar y pwynt hwn, talodd y Rheolwr Gyfarwyddwr deyrnged a mynegi ei gwerthfawrogiad i staff oedd wedi gweithio mor ddiflino yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed o fewn meysydd o weithgaredd y Cyngor ac roedd y gweithlu, Aelodau, cymunedau a phartneriaid i'w canmol yn fawr am eu camp wych mewn cyfnod mor anodd.<br><br>Wedyn cafodd Aelodau gyfle i godi cwestiynau/rhoi sylwadau ar yr adroddiad. Rhoddwyd crynodeb o'r sylwadau hyn fel sy'n dilyn:<br><br>- Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud mai asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad oedd hyn a dywedodd y teimlai fod yr adroddiad yn darllen yn rhy gadarnhaol ac nad oedd yn rhoi digon o sylw i'r gwelliannau sydd eu hangen. Mae Adolygiad Thematig Estyn yn enghraifft o hyn oedd wedi rhoi sylw i feysydd cadarnhaol ond wedi canolbwyntio llai ar y gwelliannau angenrheidiol.<br><br>Mae'r adroddiad yn or-optimistig a dylai adroddiad llawer | |

mwy cytbwys fod wedi ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd oherwydd ei fod yn portreadu barn hollol groes i'r hyn y mae aelodau'r cyhoedd yn ei weld ar lawr gwlad h.y. mae sbwriel ac yn arbennig dresmasu gan anifeiliaid yn cynyddu ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol – dywedwyd y gwnaed ceisiadau am sefydlu gwasanaeth newydd i drin y mater. Yn ychwanegol, fel rhan o gyllideb y llynedd, cyflwynwyd cynnig i wella'r gwasanaeth CCTV – eto, dywedwyd mai Blaenau Gwent oedd yr unig awdurdod yng Ngwent heb wasanaeth CCTV oedd yn cael ei staffio.

Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy gyfeirio at ymgynghoriad a dywedodd fod y Cyngor wedi methu ar yr agwedd hon a soniodd am bynciau diweddar lle teimlai y bu diffyg ymgysylltu h.y. Parc yr Ŵyl, y Swyddfeydd Cyffredinol a Meysydd Parcio'r Rheilffordd a Buddsoddiad Rheilffordd Cwm Ebwy.

Fodd bynnag, yng nghyswllt yr ymateb i argyfwng Covid-19, bu'r Cyngor yn wych a bu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a staff yn rhagorol - soniwyd am hyn mewn adroddiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ddweud, er fod meysydd o waith da ym Mlaenau Gwent, fod angen ffocws ar feysydd llai cadarnhaol – cafodd y Cyngor ei feirniadu'n flaenorol gan Archwilio Cymru am fod yn rhy optimistig a dywedodd bod angen adroddiad llawer mwy cytbwys.

Rhoddodd Aelodau eraill sylwadau fel sy'n dilyn:

- Canmolwyd gwaith y Cyngor a'i staff drwy gydol y pandemig.

- Adleisiodd Aelod sylwadau Arweinydd y Grŵp Llafur a dywedodd fod y Cyngor yn mynd drwy gyfnod heriol fel canlyniad i'r pandemig a chanmolodd yr awdurdod ar ei ymateb. Aeth ymlaen drwy gyfeirio at CCTV a dywedodd iddi gael ymgynghoriad helaeth gyda Heddlu Gwent yn flaenorol a dywedodd fod yr adroddiad wedi methu sôn y byddai Heddlu Gwent yn fodlon talu am storio cwmwl (gellid edrych ar luniau yn fyw ym Mhencadlys yr Heddlu) pe byddai'r Cyngor yn darparu gweithredydd rheoli CCTV. Roedd yr adroddiad hefyd heb sôn mai Blaenau Gwent yw'r Cyngor sy'n perfformio waethaf yng Ngwent yng nghyswllt CCTV.

Yng nghyswllt tresmasu anifeiliaid, roedd cryn lawer o waith yn dal i'w wneud yng nghyswllt ffensio ac mae hwn yn faes nad yw'n cael digon o adnoddau.

Ar bwynt cywirdeb ac eglurhad, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad oedd Heddlu Gwent wedi gwneud unrhyw gynnig cyllid ar gyfer CCTV. Y Cyngor sy'n talu am yr holl wasanaeth hwn.

Cadarnhaodd yr Aelod fod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cynnig talu am storio cwmwl pan oedd gweithredydd CCTV yn y swydd i fonitro'r camerâu. Blaenau Gwent yw'r unig awdurdod yng Ngwent nad yw'n gweithredu yn y modd hwn.

Croesawodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cynigion am storfa cwmwl i wella mynediad yr heddlu i luniau a dywedodd, er y cynhaliwyd trafodaethau cynnar, na chafwyd unrhyw gynnig pendant. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd rhan gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau eraill ar y cynllun hwn.

- Mae lefel yr ymgysylltu a chyfranogiad y cyhoedd wedi gwaethygu ers y pandemig. Dywedwyd fod achosion lle mae preswylwyr yn dal i deithio i'r Ganolfan Ddinesig oherwydd na wyddent fod yr adeilad wedi cau.

- Yng nghyswllt anifeiliaid crwydrol, dywedodd Aelod y dylai ffermwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hanifeiliaid a gofalu amdanynt mewn ffordd resymol a diogel.

Cytunodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei bod yn ddyletswydd ar ffermwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hanifeiliaid. Er bod y gwasanaeth llocio wedi dod i ben mewn blynyddoedd blaenorol, bu hyn fel canlyniad i doriadau uniongyrchol o £32m yn ystod y cyfnod hwnnw ac roedd nifer y digwyddiadau llocio wedi gostwng adeg y gwnaed y penderfyniad. Fodd bynnag, bob tro y gwnaed cynnig i ailddechrau'r gwasanaeth, roedd y Cyngor wedi bod mewn sefyllfa llawer gwell yn ariannol ac felly dylai'r gwasanaeth fod wedi ei adfer.

Cyfeiriodd Aelod arall at broblemau neilltuol gyda cheffylau

ar safle yn ei ardal ef a fu'n destun nifer o gyfarfodydd a dywedodd fod angen yn dal i fod i ystyried ailsefydlu y gwasanaeth llocio yng nghynt yn hytrach nag yn hwyrach. Dywedodd Aelod arall fod yn rhaid i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am anifeiliaid crwydrol gan eu bod yn crwydro ar y ffordd fawr a stadau gan achosi problemau diogelwch y cyhoedd. Nodwyd, yn ogystal â defaid, y bu digwyddiadau o geffylau mawr a gwartheg yn crwydro.

- Blaenau Gwent oedd yr unig awdurdod yng Nghymru nad oedd wedi codi arwyddion yng nghanol trefi yn ystod y pandemig yn cynghori pobl i 'gadw pellter diogel a chadw 2m ar wahân'. Gofynnodd Aelod pam y cymerwyd y penderfyniad hwn gan iddo dderbyn cwynion gan fanwerthwyr am y diffyg arwyddion. Yng nghyswllt parcio ceir, nid yw'r sefyllfa hon wedi gwella ers i'r Cyngor ddod yn gyfrifol am bwerau gorfodaeth parcio sifil gan yr Heddlu oherwydd bod cerbydau yn dal i barcio'n beryglus yng nghanol trefi ac mae'r Aelod wedi derbyn nifer fawr o gwynion am ddiffyg gweithgaredd gorfodi yn yr ardal.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol, ar ôl derbyn cyllid Covid ar gyfrer canol trefi, y cytunwyd mewn trafodaethau gyda masnachwyr i ganolbwyntio'r cyllid ar weithgaredd busnes. Credwyd fod pobl yn gwybod yn iawn am reolau pellter cymdeithasol drwy'r cyfryngau a llawer iawn o negeseuon cyhoeddus a gadarnhawyd gyda phresenoldeb gorfodi mewn ardaloedd, yn cynnwys canol trefi.

  Yng nghyswllt gorfodi parcio sifil, mae hwn yn wasanaeth newydd a weithredir gan y Cyngor a gafodd ei drosglwyddo i'r awdurdod o'r Heddlu. Gyda lefel yr adnoddau a ddarperir, mae'r gwasanaeth yn effeithlon yn nhermau'r hyn y gallai ei gyflawni ac mae nifer o docynnau a roddwyd cyn Covid-19 a'r gweithgaredd gorfodi wedi dechrau i reoli'r mannau gwaethaf.

  Fodd bynnag, os oes gan Aelodau bryderon neilltuol am ardaloedd penodol, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi gofyn i'r manylion perthnasol gael eu hanfon ac y targedid adnoddau yn unol â hynny. Fodd bynnag, byddai angen trafodaeth ar wahân os oes angen gweithgaredd ychwanegol neu newidiadau i'r gwasanaeth.

- Gan fod Addysg yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn gwella safonau mewn ysgolion fel y gall pob plentyn gyrraedd eu potensial llawn, gofynnwyd y ddau gwestiwn dilynol i'r Aelod Gweithredol dros Addysg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg:

  Cwestiwn 1 – Fel canlyniad i'r pandemig, cafodd arholiadau TGAU eu canslo a chyflwynwyd asesiadau athrawon yn eu lle. Bu hefyd lacio i adrodd canlyniadau'r awdurdodau lleol. Gofynnwyd i'r Aelod Gweithredol os yw'n hyderus fod safonau addysg ym Mlaenau Gwent yn gwella, yn arbennig o fewn y ddwy ysgol neilltuol sydd mewn categori Estyn ac os y byddai'r ysgolion hyn yn cael eu tynnu o'r mesurau hyn.

  Dechreuodd yr Aelod Gweithredol drwy ddweud nad mater iddi hi benderfynu yw os y caiff y ddwy ysgol eu tynnu o'r categorïau, ond penderfyniad i Estyn. Fodd bynnag, roedd yn fodlon fod yr ysgolion oedd yn achos consyrn yn gwneud cynnydd da iawn ac mae proses drylwyr yn ei lle i wirio a chydbwyso cynnydd ysgolion.

  Cwestiwn 2 – Perfformiad yn Hafan Dysgu Blaenau Gwent. Mynegwyd pryder am nifer y bobl ifanc sy'n dilyn cyrsiau Lefel 'A', oherwydd fod y nifer wedi gostwng yn ôl data'r flwyddyn flaenorol.. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol os gwyddai beth oedd y canran o bobl ifanc yn mynychu addysg bellach ym Mlaenau Gwent fel canran o bobl ifanc oedd wedi ymrestru ar gyfer cyrsiau Lefel 'A' o gymharu gydag ysgolion a cholegau mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Cafodd y materion dilynol hefyd eu codi gan yr Aelod:

  Roedd nifer o bobl ifanc yn dewis mynychu sefydliadau eraill yn hytrach na mynychu Hafan Dysgu Blaenau Gwent, er enghraifft Goleg Merthyr ac Ysgol Uwchradd Crughywel.

  Mewn blwyddyn pan na ddylai unrhyw ysgol fod yn gwybod am ganlyniadau ei gilydd, roedd un ysgol wedi anfon llythyr at ddarpar rieni yn dweud mai hi oedd â'r canlyniadau gorau ym Mlaenau Gwent.

  Caiff gohebiaeth ei hanfon i blant sy'n mynychu ysgolion uwchradd yng ngogledd Gwent yn gofyn iddynt ystyried

Ysgol Uwchradd Crughywel fel cyrchfan ar gyfer addysg uwchradd.

Dechreuodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol drwy adleisio sylwadau'r Aelod Gweithredol fod y ddwy ysgol sydd mewn categori Estyn ar hyn o bryd yn rhan o'r trafodaethau rhanbarthol am ysgolion yn achosi consyrn ac roedd yn hyderus fod y dwy ysgol yn gwneud cynnydd go iawn.

Yng nghyswllt Hafan Dysgu Blaenau Gwent, mae'r data yn galonogol yn nhermau'r perfformiad ar Lefel 'A' – roedd graddau A* i E yn gyfraddau pas o 99.1%% ac mae'r perfformiad hwn yn debyg i gyfartaledd cenedlaethol Cymru. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gyda'r Hafan Dysgu i wneud cynnydd pellach ar raddau A* - A ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog.

Nodwyd mai un o'r prif resymau y sefydlwyd yr Hafan Dysgu oedd creu cydbwysedd rhwng cyfleoedd dysgu academaidd a galwedigaethol a bri cyfartal ac mae'r Hafan Dysgu yn cadw ei sefyllfa o ran nifer y lefelau 'A' a gynigir ac mae mwy o ddysgwyr ôl-16 yn mynychu'r coleg nag erioed o'r blaen. Mae cyfanswm y dysgu galwedigaethol hefyd yn cynyddu. Yn nhermau cyfran y dysgwyr sy'n cymryd lefel 'A', roedd hyn wedi sefydlogi eleni ac roedd tua 324 o ganlyniadau Lefel 'A; yn 2021.

Yng nghyswllt sefydliadau dysgu, mae'n fater o ddewis rhieni a dysgwyr i benderfynu ym mha sefydliad i dderbyn addysg. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Partneriaeth Strategol Ôl-16 yn gweithio gyda phenaethiaid ysgol a Choleg Gwent ar hyn o bryd i ganfod y rheswm pam fod dysgwyr yn dewis sefydliadau eraill ac i sicrhau pontio llyfn o Flwyddyn 11 i Ôl-16. Nodwyd fod trafodaethau wedi digwydd eisoes gyda'r pennaeth yn Nhredegar gan fod nifer o'r dysgwyr o'r ysgol honno wedi penderfynu mynychu Coleg Merthyr.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n cael trafodaeth ar wahân gyda'r Aelod am y llythyr a gyhoeddwyd gan ysgol am ei chanlyniadau oherwydd nad oedd wedi gweld yr ohebiaeth hon.

Yn nhermau Ysgol Uwchradd Crughywel yn bod yn ysgol cyrchfan, ar hyn o bryd mae 3 neu 4 ysgol uwchradd yn y

Fwrdeistref Sirol yn cael problemau capasiti ar hyn o bryd o ran trefniadau derbyn. Roedd hyn yn ddangosydd fod rhieni yn dewis ysgolion uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol a bod lefelau hyder yn gwella, a rhoddodd sicrwydd yn nhermau perfformiad uwchradd ar draws y Fwrdeistref Sirol.

- Mynegwyd pryder am aelodau o'r cyhoedd yn ymarfer eu hanifeiliaid ar gaeau chwarae a faint o faw cŵn sydd mewn cymunedau.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr ailgyflwynwyd gweithredu gorfodaeth ar ofodau agored cyhoeddus a thaflu sbwriel o ddechrau mis Medi. Er fod yr ardaloedd lle gwaherddir cŵn wedi eu marcio'n glir, byddid yn rhoi negeseuon pellach i gymunedau i atgoffa pobl i beidio ymarfer eu hanifeiliaid mewn gofod cyhoeddus a byddai gweithgaredd gorfodi o fewn yr ardaloedd hyn yn parhau.

Cynigiodd Aelod y dylid cefnogi Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig hwn.

Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor ei gefnogaeth i Opsiwn 1. Wrth gydnabod fod Aelodau wedi manteisio ar y cyfle i dynnu sylw at rai materion, dywedodd fod yn rhaid i bob gweinyddiaeth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar amgylchiadau ac er budd gorau'r cyhoedd. Fodd bynnag, y bwriad yw y byddai adroddiadau sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn cael eu hystyried a'u trafod drwy'r broses ddemocrataidd maes o law.

Yng nghyswllt mater ymgysylltu, derbyniodd nad oedd peth o'r cyfathrebu diweddar wedi cyrraedd y safon gofynnol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor ar y cyd wedi ymgysylltu dros y 4 blynedd ddiwethaf a dywedodd Archwilio Cymru y bu'r ymgysylltu hwn 'gystal ag unrhyw gyngor blaenorol ac efallai yn well'. Fodd bynnag, yn anffodus roedd yr ymgysylltu mewn canol trefi ac archfarchnadoedd drwy'r sioeau ffordd llwyddiannus iawn a fynychwyd gan wleidyddion o bob grŵp wedi methu parhau fel mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd y pandemig.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr adroddiad yn nodi'r gweithgareddau allweddol, wedi eu mesur ar y cynllun gwella ar sail portffolio ac yn rhoi sylw i weithgaredd gwasanaeth amlwg a bod yr adroddiad yn gytbwys iawn yn y cyswllt hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod yr Arweinydd, Dirprwy Aelod ac Aelodau Gweithredol yn cymryd rhan yn yr holl drafodaeth yn y dyfodol ac nid dim ond crynhoi ar ddiwedd y drafodaeth. Mae hwn yn adroddiad gwleidyddol a dylai gael ei amddiffyn a'i arwain gan Aelodau ac nid swyddogion. Daeth i ben drwy ddweud ei fod ef o farn arall ynghylch ymgynghori ac ymgysylltu.<br><br>Ar hynny, PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef y cynnydd ôl-weithredol a wnaed ac a gynhwyswyd o fewn Asesiad Perfformiad 2020/2021 y Cyngor sydd hefyd yn cyflawni'r holl ofynion deddfwriaethol statudol. | |
| **No. 24** | **<u>CYNLLUN GWEITHREDU CYNGOR AMRYWIOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod y Cyngor eisoes wedi ymrwymo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf i ddod yn Gyngor amrywiol ac y cytunwyd bryd hynny i ddatblygu cynllun gweithredu i gefnogi amrywiaeth yn y broses ddemocrataidd a bod y cynllun gweithredu'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn ei gymeradwyo gan y Cyngor.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu, a roddir fel atodiad i'r adroddiad, yn dilyn fformat WLGA ac yn cynnwys y canfyddiadau a wnaethpwyd eisoes gyda phobl ifanc 16-25 oed yng nghyswllt rhyngweithio o amgylch democratiaeth. Mae trafodaethau hefyd wedi mynd rhagddynt gyda swyddogion allweddol ac arweinwyr cydraddoldeb i sicrhau y gwnaed y cysylltiadau cywir fel y gellid datblygu rhai o'r camau gweithredu a gynigiwyd. Nodwyd fod y cynllun gweithredu yn nodi'r gweithgaredd y bwriedir ei gynnal cyn etholiadau lleol 2022 ac yn dilyn etholiadau – mae'r ddogfen yn hirhoedlog a gellid ychwanegu arni ac ychwanegu ati wrth iddi symud ymlaen.<br><br>Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi croesawu'r adroddiad ond y codwyd ychydig o bwyntiau am beth o'r geiriad a ddefnyddiwyd o ran cyfansoddiad gwleidyddol grwpiau a thaliadau parasiwt i Aelodau a gollai eu seddi mewn etholiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at eitem rhif 30 yn y cynllun gweithredu ac yn fwy penodol y bwynt bwled olaf, sef “cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ymchwilio grantiau adsefydlu neu ‘daliadau parasiwt’ i Aelodau sy’n colli eu seddi mewn etholiad” a dywedodd na fedrai’r Grŵp Llafur na’r Grŵp Annibynnol Lleiafrifol gefnogi’r cynnig hwn.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y cynllun gweithredu yn ddogfen ‘fyw’ ac y byddai’n cael ei hadolygu yn rheolaidd i sicrhau fod y ddogfen yn cynnwys unrhyw bwyntiau perthnasol dros amser. Caiff y cynllun monitro ei fonitro drwy’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel rhan o’r flaenraglen gwaith.<br><br>Dilynodd trafodaeth bellach am ddefnydd yr ymadrodd ‘pleidiau gwleidyddol’ o fewn y ddogfen a gofynnwyd am ddiwygio hyn i ddarllen ‘grwpiau gwleidyddol’.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog fod y pwyntiau a wnaed am yr eirfa yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu cynnwys yn yr adroddiad egluro. Yng nghyswllt taliadau parasiwt, mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried hyn ar sail genedlaethol a chaiff ei drafod ar draws Cymru ar hyn o bryd. Gan y byddai fersiynau pellach o’r cynnig hwn, gallai’r Cyngor ystyried hyn yn y dyfodol fel rhan o’r adolygiad byw o’r cynllun gweithredu.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at baragraff 6.1 yr adroddiad ac yn neilltuol fod Blaenau Gwent yn parhau i fod â lefelau sylweddol uwch na’r cyfartaledd o anabledd gyda chyfanswm o 31.6% o bobl oedran gwaith wedi eu diffino fel anabl (EA craidd neu anabledd yn cyfyngu gwaith) o gymharu gyda 22.8% ar gyfer Cymru. Gan fod gan Blaenau Gwent un o’r cyfraddau uchaf yn y categori hwn yng Nghymru, gofynnodd yr Aelod os y gellid cynnwys cam gweithredu yn y cynllun i Dîm Anelu’n Uchel gysylltu gyda’r grŵp hwn a rhoi cefnogaeth a chymorth i gyflogaeth.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod gwaith yn mynd rhagddo ar draws y Cyngor gyda’r cohort hwn i helpu a rhoi cefnogaeth lle roedd yn bosibl. Fodd bynnag, o ran cyd-destun yr adroddiad, mae’r cyfeiriad neilltuol hwn yn ymwneud â’r gefnogaeth y gellid ei rhoi i annog cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd y dylai'r geiriau 'pleidiau gwleidyddol' yn y ddogfen gael ei newid i 'grwpiau gwleidyddol'.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar y diwygiad uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo'r cynllun gweithredu ar gyfer ei roi ar waith, yn amodol ar y sylwadau uchod a nodi'r diwygiad. | |
| **No. 25** | **<u>DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol i gael ei ystyried.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol mai diben yr adroddiad yw i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad. Nodwyd na chafodd y ddogfen ei diweddaru ers 2019 ac na fu unrhyw ddiweddariad yn y flwyddyn flaenorol gan fod y ffocws ar ymateb i'r pandemig. Felly, mae'r ddogfen yn cynnwys 2 flynedd o ddiwygiadau, yn rhai gweithdrefnol a newidiadau wedi eu diweddaru.<br><br>Roedd y Gweithgor Cyfansoddiad wedi ystyried a chymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2021. Anfonwyd gohebiaeth hefyd at Aelodau absennol yn gofyn am eu sylwadau ac at swyddogion allweddol i gael diwygiadau pellach. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw gynigion na sylwadau pellach.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y rhestr o ddiwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor, yn neilltuol y ddau gynnig dilynol:<br><br>- Rhan 4 – Cofrestr Buddiannau Aelodau – cynnig i gynyddu budd materol gwerth o £10 i £20.<br><br>- Adran 20 – Cod Ymddygiad Swyddog – cynnig i gynyddu gwerth rhoddion o dan £10 i dan £20.<br><br>Aeth yr Aelod ymlaen drwy ddweud, er budd bod yn agored a thryloyw, na ddylid cynyddu'r cynigion uchod ond naill ai ei gostwng i sero neu gadw'r sefyllfa fel y mae.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Corfforaethol a | |

Chyfreithiol y cynhaliwyd gwaith meincnodi yn ddiweddar yng Ngrŵp Swyddogion Monitro Cymru-gyfan am lefel trothwy rhoddion sylweddol, lle byddai'n ofynnol i Aelodau a swyddogion gofnodi'n gyfreithiol unrhyw roddion a dderbyniwyd. Nodwyd fod gosod y trothwy ar ddisgresiwn y Cyngor ar hyn o bryd ac roedd yn amlwg o'r gwaith meincnodi mai Blaenau Gwent sydd â'r lefel isaf yng Nghymru.

Ychwanegodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol drwy ddweud y bu'r lefel o £10 yn ei lle am dros 30 mlynedd a bod y rhan fwyaf o awdurdodau eraill yng Nghymru wedi cynyddu eu lefelau i £25-30 oherwydd ei bod yn eithaf cyffredin i Aelodau a swyddogion dderbyn anrhegion adeg y Nadolig, Felly, byddai cynyddu i £20 yn lefel y trothwy yn gwneud y broses yn llai beichus i Aelodau ac yn swm mwy realistig, gan gofio na chafodd hyn ei ailbrisio am nifer sylweddol o flynyddoedd.

Nodwyd fod rhai Aelodau yn datgelu pob rhodd beth bynnag eu gwerth ond nad oedd yn ofyniad cyfreithiol arnynt i wneud hynny os nad oeddent yn dod dros y llinell trothwy, sy'n £10 ar hyn o bryd. Felly byddai'r cynnig hwn yn golygu y byddai'r Cyngor yn debyg i gynghorau eraill ar draws Cymru a'r Gweithgor Cyfansoddiad a ystyriai fod £20 yn lefel resymol.

Dywedodd Aelod iddo dderbyn rhoddion yn flaenorol ac wedi ei gynghori gan y Swyddog Cyfreithiol ar y pryd ond i wneud cyfraniad ar werth tebygol y rhodd i Apêl y Maer.

Dywedodd Aelod arall ei fod yn gwerthfawrogi fod chwyddiant wedi cynyddu ac y dylai'r Cyngor longyfarch ei hun am fod yn un o'r cynghorau mwyaf beichus yng Nghymru ond dywedodd y byddai'n cynnig gwelliant er budd bod yn agored a thryloyw na ddylid cynyddu'r cynigion uchod ond naill ei gostwng i ddim neu fod y sefyllfa'n aros fel y mae. Ar hynny, cynigiodd gynnal pleidlais ar yr opsiynau dilynol:

Opsiwn 1:
Ystyried a chymeradwyo'r gwelliannau a awgrymwyd a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad presennol.

Opsiwn 2:
Peidio cymeradwyo rhai neu'r holl gwelliannau a'u cyfeirio'n ôl i'r Gweithgor Cyfansoddiad i'w hystyried ymhellach.

| | | |
|---|---|---|
| | Opsiwn 3:<br>Gostwng y gwerth i 'sero' ar gyfer yr holl gynigion uchod yng nghyswllt Cofrestr Buddiannau Aelod a Chod Ymddygiad Swyddogion.<br><br>Opsiwn 4:<br>Y terfyn o '£10' i barhau ar gyfer y cynigion uchod yn ymwneud â Chofrestr Buddiannau Aelodau a Chod Ymddygiad Swyddogion.<br><br>Cynigiodd Aelod arall y dylid cymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd hyn.<br><br>Er mwyn eglurder o ran y drefn bleidleisio, awgrymodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y dylid cymryd pleidlais gyntaf yng nghyswllt Opsiynau 1 a 2 ac os caiff Opsiwn 2 ei gario, cynnal pleidlais bellach yng nghyswllt Opsiynau 3 a 4.<br><br>Wedyn cymerwyd pleidlais yng nghyswllt Opsiynau 1 a 2:<br><br>**O blaid Opsiwn 1 –** Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, J. Mason, J. P. Morgan, L. Parsons, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas a J. Wilkins.<br><br>**O blaid Opsiwn 2 –** Cynghorwyr D. Bevan, P. Edwards, L. Elias, H. McCarthy, J. Millard, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire a B. Willis.<br><br>**Felly cariwyd y bleidlais ar Opsiwn 1.**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo a chynnwys y gwelliannau a awgrymwyd i'r Cyfansoddiad presennol. | |
| **No. 26** | **ADRODDIAD AELODAETH**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan**<br>- penodi dau gynrychiolydd i'r uchod.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd nad oedd wedi derbyn unrhyw enwebiadau ar gyfer y swyddi hyn hyd yma. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Pwyllgor Cydlynu Rheilffordd Cwm Ebwy</u>**<br>- penodi cynrychiolydd i'r uchod.<br>-<br>PENDERFYNWYD penodi Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor Cydlynu uchod.<br><br>**<u>Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Phwyllgor Craffu Diogelu – Cyfethol Aelod</u>**<br><br>Cadarnhau penodiad Mr. Tim Pritchard, Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair fel Aelod cyfetholedig ar y Pwyllgorau Craffu uchod.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| **No. 27** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am yr eithriadau ar gael mewn rhestr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 28** | **<u>LLUNIO RHESTR FER – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y Pwyllgor Apwyntiadau wedi cwrdd a chyfweld ag ymgeiswyr ar gyfer swydd Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau ar 28 Medi 2021 a chadarnhaodd mai Miss Sarah King oedd yr ymgeisydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | llwyddiannus ac y cynigiwyd y swydd iddi'n ffurfiol. Nodwyd fod y swydd hon hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb statudol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a chadarnhawyd mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylai'r dynodiad statudol hwn barhau gyda swydd Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy'n gadael y swydd, mynegodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid ei gwerthfawrogiad i Aelodau am y cyfle a gafodd i gyflawni'r swydd hon ers 2013. Dywedodd y bu'n fraint i weithio gydag Aelodau yn y swydd hon ac edrychai ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau yn ei swydd newydd, fel rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth.<br><br>Mynegodd y Cadeirydd ei dymuniadau gorau i'r Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid yn ei swydd newydd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |